Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru
National Infrastructure Commission Wales

Ein cyf/Our ref: NICW/25/CCEIReport

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
SeneddClimate@senedd.cymru

8 Mai 2025

Annwyl Llŷr,

Rydym yn ysgrifennu mewn ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, *Craffu Blynyddol: Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru 2024,* a gyhoeddwyd ar 24 Ebrill 2025.

Mae dau o argymhellion yr adroddiad wedi cael eu cyfeirio at Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (NICW), a byddem yn ymateb fel a ganlyn.

**Argymhelliad 6.**
**Dylai'r Comisiwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am weithredu argymhellion yr archwiliad ym mis Awst 2025 a mis Mawrth 2026.**

Mae'r Comisiwn wedi gweithredu ar yr argymhellion/sylwadau a ganlyn a wnaed yn yr Adroddiad Adolygu ynglŷn â'r materion y mae'n gyfrifol amdanynt:

- O ran Rheoli Risg, mae NICW wedi adolygu'r Gofrestr Risg ac mae bellach yn trafod risgiau bob mis yn rhan o'r agenda.
- Mae wedi cytuno ar gylch gorchwyl ar gyfer cyfarfodydd NICW ac wedi'i gyhoeddi ar wefan NICW.
- Mae wedi penderfynu paratoi adroddiad misol newydd sy'n rhoi mwy o fanylion i Gomisiynwyr NICW cyn y cyfarfodydd misol.

Bydd y Comisiwn yn mynd i'r afael â'r argymhellion/sylwadau eraill ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn unol â hynny.

**Argymhelliad 10.**
**Dylai'r Comisiwn barhau i fonitro a holi Llywodraeth Cymru ynglŷn â sut y mae'r argymhellion o'i adroddiad ynni adnewyddadwy yn cael eu rhoi ar waith.**

Mae'r angen i'r Comisiwn fonitro ei argymhellion yn rhan o gylch gwaith a chylch gorchwyl NICW. Rydym yn mynd ati pryd bynnag y bo modd i ddadlau a

Cadeirydd / Chair Dr David Clubb
Dirprwy Gadeirydd / Deputy Chair Dr Jenifer Baxter
Comisiynwyr / Commissioners Helen Armstrong, Stephen Brooks, Aleena Khan, Eluned Parrott, Dr Eurgain Powell, Nick Tune

Ysgrifenyddiaeth NICW Secretariat
nationalinfrastructurecommissionforwales@gov.wales
0300 025 5040

siarad o blaid ein hargymhellion gyda Llywodraeth Cymru a phartïon eraill sydd â diddordeb.

Yn gywir

Dr David Clubb
Cadeirydd / Chair

Dr Jenifer Baxter
Dirprwy Gadeirydd / Deputy Chair

Copi at: Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio